Cyngor Cymuned
**EGLWYS BACH**
Community Council

**Cofnodion Cyfarfod 07-01-20 – 7.00pm**

| | |
|---|---|
| **Presennol** | Cynghorwyr John Emlyn Jones (Cadeirydd), John Lloyd Williams, Ceri Leeder, Wendy Williams, Phyllis Purchase, Geraint Owen, Gwenan Roberts, Gwilym Williams, Arthur Williams a Delyth Wynne (Clerc) |
| **Ymddiheuriadau** | Cynghorydd Austin Roberts |

1. **CROESO**

   Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorwyr i'r cyfarfod.

2. **YMDDIHEURIADAU**

   Gweler uchod.

3. **DATGAN DIDDORDEB**

   Dim.

4. **COFNODION** – Cadarnhau ac arwyddo cofnodion y cyfarfod diwethaf (03/12/19).

   Cynigwyd cofnodion 03/12/19 yn gywir gan Cyng John ac eiliwyd gan Cyng Geraint.

**5. MATERION YN CODI**

- **Mandad Banc:**
  Cynghorwyr Gwenan, Ceri a Geraint i fynd i Banc HSBC Llandudno gyda'u pasbort a trwydded gyrru i lenwi'r mandad.

- **Llwybyr Chwarel y Nant:**
  Y Cadeirydd angen cyngor cyfreithiol i lenwi'r ffurflen. Cyng Austin i holi CBSC am gyngor cyfreithiol.

- **Cynnal a chadw'r Hysbysfwrdd:**
  Russell wedi cychwyn y gwaith.

- **Pibell wedi'i blocio Ffordd Bryn Hir (dros y bont ac i fyny):**
  Y Clerc i gysylltu gyda ERF.

- **Polyn lamp rhif 4 yn Heol Ffynnon Asa:**
  Wedi ei drwsio.

- **Sgip yn y pentref:**
  22 Chwefror, 2020.

- **Torri lawr yr Hinsawdd:**
  Ymateb wedi ei dderbyn gan Andrew Wilkinson. Cyng Ceri yn yn cynnig ei wahodd i'r cyfarfod nesaf. Cyng Geraint yn cynnig iddo ddod mewn 4 mis a Cyng Arthur yn cynnig iddo ymuno mewn cyfarfod cyhoeddus mewn 6 mis. Cyng Gwilym yn eilio Cyng Arthur. Ar ol trafodaeth penderfynwyd ei wahodd mewn 4 mis i gyfarfod cyhoeddus i roi diweddariad ar beth sydd wedi cael ei gyflawni. Cynghorwyr i gyd yn cytuno.

- **Praesept 2020/21:**

  Rhannodd y Clerc y sefyllfa ariannol bresennol gyda'r Cynghorwyr. Penderfynwyd trafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf.

- **Holiadur Cae Chwarae**
  Y Cadeirydd wedi rhannu'r holiadur gyda'r ysgol.

- **Coed ger Cilgeran:**
  Coed wedi eu torri ger Cilgeran a'r pren wedi ei roi yn y trelar. Y Clerc i ysgrifennu at y preswylwyr (Mr a Mrs Quick) i dynu eu sylw bod hyn wedi digwydd.

- **Coeden Nadolig:**
  Y Clerc i yrru llythyrau diolch i Bodnant Nurseries am eu rhodd o goeden nadolig ac i Paul Williams a Paul Roberts am eu cymorth gyda'r goeden.

**6. CYNLLUNIO**

- 0/46913 - Mr Craig Edwards
  Cynllun: Amrywiad i amodau 1,7,9,12,13,14,16,17 ac 18 o ganiatâd cynllunio 0/45201 (Amrywiad i amod rhif4,6,7,10,13 ac 14 o ganiatâd cynllunio 0/43805 (Dymchwel y sied haearn presennol ac adeiladu llety gwyliau yn cynnwys 9 ystafell wely gydag en-suite a chaban gwyliauhunan arlwyo gyda 3 llofft yn cynnwys gwaith tirlunio a chyfleuster trin carthion, ac oerwr ac ystafell ymolchi allanol ar gyfer y dafarn).

  Dim sylw.

- 0/46987 - Mr Paul Boullen
  Cynllun: Estyniad i Siop Teiliwr
  Safle: Siop Teiliwr, Tal y Cafn LL28 5RR

  Dim sylw.

7. **ADRODDIAD ARIANNOL**

Cyfredol - £,7,682.60
Angladdau - £498.20
Cadw - £2,076.05

**Sieciau:**
**Cyfredol:**

- Sue Hayward (Llnau Toiledau) - £122.50
- Delyth Wynne (Clerc) - £200.00
- HMRC - £50.00
- Arthur Williams (Goleuadau Coeden Nadolig) - £47.98
- Zurich (yswiriant) - £416.94

- **Angladdau:**
  Cyng John wedi dod a costau angladdau i'r cyfarfod. Cyng John yn cynnig codi'r costau 5%. Cyng Phyllis yn eilio. Cynghorwyr yn cytuno.

8. **GOHEBIAETH**

- **E-Bost: Theatr Bara a Caws - Cais am gymhorthdal i gynghorau cymuned Conwy:**
  Cyng Geraint yn cynnig £50.00. Cyng Phyllis yn eilio. Dim gwrthwynebiad.

- **E-Bost: Fforwm Clercod Conwy Wledig – 05/02/20 am 6.00 o'r gloch:**
  Y Clerc a Cyng Austin yn mynychu.

- **E-Bost: Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru (CICGC) – Gwasanaethau Fasgwlaidd:**
  Nodwyd er gwybodaeth.

- **E-Bost: CSC – LFFN:**
  Y Cadeirydd i ymateb.

- **Llythyr: Janet Finch-Saunders AS – Pryderon a godwyd am lifogydd yn Aberconwy:**
  Nodwyd er gwybodaeth.

- **E-Bost: CBSC – Cronfa Ragoriaeth Conwy:**
  Gofynnodd y Clerc i Gynghorwyr adael iddi wybod cyn y cyfarfod nesaf os oes ganddynt enw mewn golwg.

9. **UNRHYW FATER ARALL**

- Cwyn gan breswylydd am yr X19 ddim yn dod i'r pentref. Dydy'r X19 ddim yn cael ei arianu gan CBSC ond yn cael ei redeg yn fasnachol gan Gwmni Llew Jones. Mae'r X19 yn galw yn Graig ond ddim yn y pentref. Y Clerc i ysgrifennu llythyr i Gwmni Llew Jones i ofyn pam oherwydd dim ond 6 munud fysa yn cael ei ychwanegu at y daith.

- Ffordd Penisarwaun a Waenfechan – pant yn y ffordd a mae o yn llenwi pam mae hi'n glawio. Y Clerc i gysylltu gyda ERF.
- Phyllis wedi derbyn y pamffledi llifogydd ond ddim wedi dosbarthu eto.
- Ffordd Bryn Hir – ochr y llwybr – lot o ffrigau wedi tyfu mewn i goed bach. Y Clerc i gysylltu gyda ERF.
- Cefn Heol Ffynnon Asa mae'r ffens wedi'i atal a'r pridd wedi ei olchi i ffwrdd. Mae swyddog o CBSC James Feest am ysgrifennau at Steven Dixon, Rheolwr Ystâd Bodnant.
- Agenda cyfarfod mis Chwefror – tendr torri glaswellt.
- Llythyr wedi ei dderbyn gan CBSC yn gofyn i drigolion dalu am wastraff gardd. Bydd y gwasanaeth yn gorffen 13 Ionawr tan diwedd mis Mawrth ond yn dweud eich bod yn medru mynd a'ch gwastraff i Mochdre. Gofynnodd y Cynghorwyr beth sydd yn digwydd i wastraff preswylwyr sydd ddim yn medru teithio i Mochdre. Preswylwyr wedi talu eu trethi tan diwedd mis Mawrth, lle mae'r arian wedi mynd. Y Clerc i ysgrifenu i holi ymhellach.
- Preswylydd yn gofyn am arwydd cliriach ynglyn â'r defnydd o feiciau yn y cae chwarae.
- Cwn dal i faeddu yn y fynwent.

10. **DYDDIADAU Y CYFARFODYDD NESAF**

04/02/20
03/03/20
07/04/20
05/05/20
02/06/20
07/07/20
01/09/20
06/10/20
03/11/20
01/12/20

Daeth y cyfarfod i ben am am 9.15 o'r gloch.